

Ein siaradwyr

Bethan Russell Williams

Mae Bethan Russell Williams yn enedigol o Lanbedrog ym Mhen Llŷn. Bu'n fyfyrwraig ym Mhrifysgol Aberystwyth ble y graddiodd ddwywaith, yn gyntaf yn Y Gymraeg wedyn yn Y Gyfraith, cyn mynychu Coleg y Gyfraith, Caer.



Bu'n gweithio yn y byd cyfreithiol am gyfnod cyn gweithio fel Darlithydd yn Y Gyfraith. Mae'n Brif Weithredwr Cyngor Gwirfoddol Mantell Gwynedd ers 2004.

Daeth Bethan ar draws y theori o fesur gwerth cymdeithasol yn wreiddiol ym 2012 a gwelodd yn ddiweddarach y cysylltiad pwysig rhwng gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r gwaith o fesur gwerth cymdeithasol. Mae Bethan bellach yn byw yn Nyffryn Nantlle ble mae'n ymddiddori mewn byw yn gynaliadwy. Mae'n Aelod brwdfrydig o Gwrthryfel Difodiant Gogledd Cymru. Yn y cyd destun yma mae Bethan yn credu er mwyn creu byd lle mae anghydraddoldeb cymdeithasol a dirywiad amgylcheddol yn cael eu lleihau mae angen newid y ffordd mae'r byd yn rhoi cyfrif am werth ac mae'n gweld mesur gwerth cymdeithasol fel rhan pwysig o'r datrusiad.

Shelley Davies

Mae Shelley Davies yn fam balch i ddau o hogiau llawn egni ac yn byw yng Nghanolbarth Cymru. Yn dilyn derbyn ei BA (Anrhydedd) mewn Rheolaeth Busnes ac Economeg,



dechreuodd ei gyrfa fel Cydlynnydd Marchnata gyda chwmni gweithgynhyrchu preifat. Yn dilyn hynny, treuliodd chwe mlynedd yn y Trydydd Sector yn cefnogi busnesau bach newydd gan gynnwys gweithio gyda Chwarae Teg a Chlybiau Plant Cymru.

Ar hyn o bryd, mae Shelley ar secondiad gyda Llywodraeth Cymru fel Pennaeth Partneriaethau ac Integreiddio ac mae ei phortffolio yn cynnwys y Gronfa Gofal Integredig, datblygu Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, Fforymau Gwerth Cymdeithasol, comisiynu iechyd a gofal integredig ynghyd â datblygiad marchnad. Mae Shelley yn ymroddedig i weithio mewn partneriaeth ac yn eiriolwr brwd dros y sector gwerth cymdeithasol. Ynghyd â hybu a chefnogi'r sector yn ei rôl broffesiynol, mae hefyd yn treulio amser yn gwirfoddoli. Mae wedi treulio dros 20 mlynedd fel arweinydd Girl Guide a'r Scouts. Mae hefyd yn lywodraethwr ysgol, arweinydd gwirfoddolwyr grŵp rhedeg ar gyfer merched yn unig ac yn fwy diweddar yn gadeirydd prosiect Academi Wales Off Road er mwyn cefnogi pobl ifanc sydd eisiau seiclo.